



Addasiadau i Aseidiadau Di-arholiad haf 2021

Llyfryn Gwbodaeth

Aseu yn haf 2021 yn unig.
Fersiwn 3. Chwefror 2021.



@CBAC_WJEC



WWW.CBAC.CO.UK



@CBACWJEC

CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Cynnwys Uned 2 - Cymraeg Ail Iaith o ran y lliniaru.	13
	Eglurhad o'r math o asesiad a'r dyddiad cyflwyno/ cyfnod yr asesiad, Cymraeg Iaith, Llenyddiaeth Gymraeg a Cymraeg Ail Iaith.	13
3	Tynnwyd cyfnodau asesu a dyddiadau cyflwyno o'r cyhoeddiad hwn.	Amh.
3	Adran 1: Diweddarau'r Rhagarweiniad i adlewyrchu newidiadau i'r trefniadau asesu yn haf 2021.	1
3	Diweddarau'r wybodaeth am y pynciau i adlewyrchu newidiadau i'r trefniadau asesu yn haf 2021.	5 ac 14

Trefniadau Asesu Di-arholiad TGAU, UG a Safon Uwch CBAC yn 2021

Cynnwys	Tudalen
1. Rhagarweiniad	1
2. Asesu Asesiadau Di-arholiad	3
3. Rheolaethau Asesiadau Di-arholiad	4
4. Cymwysterau TGAU	6
5. Cymwysterau TAG	15

1. Rhagarweiniad

Yn ei [datganiad](#) ar 20 Ionawr, cadarnhaodd Gweinidog Addysg Cymru bolisi'r Llywodraeth i ddyfarnu graddau wedi'u pennu gan ganolfannau yn 2021. Aeth y Gweinidog ymlaen wedyn i ddweud:

*'Bydd modd i ysgolion a cholegau ddefnyddio ystod o dystiolaeth i bennu graddau i'w dyfarnu i'w dysgwyr, **gan gynnwys Asesiadau Di-arholiad**, ffug arholiadau, a gwaith dosbarth.*

Lle y bo'n bosibl, byddem yn annog ysgolion a cholegau i helpu dysgwyr i ymgymryd â rhai o'u Hasesiadau Di-arholiad i barhau i feithrin sgiliau a dysgu. Mae meithrin gwybodaeth a sgiliau, ac ymdrin â chysyniadau craidd i gefnogi cynnydd, yn flaenoriaeth o hyd a dylid parhau i ganolbwyntio ar hyn, gyda chymorth ein canllawiau a'n dull o ddysgu o bell fel y bo'n briodol.

Gan gydnabod yr heriau sy'n codi yn sgil y tarfu parhaus a gorfod dysgu o bell, mae'r terfynau amser a'r rheolaethau sy'n ymwneud ag asesiadau nad ydynt yn arholiadau yn cael eu dileu ac ni fyddant yn cael eu cymedroli gan CBAC.'

Ar 9 Chwefror 2021 rhyddhaodd Cymwysterau Cymru ei ddogfen [Canllawiau am Drefniadau Amgen ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo yn Haf 2021](#). Ar 22 Chwefror cyhoeddodd CBAC gyfres o Fframweithiau Asesu Cymwysterau ar gyfer pob cymhwyster TGAU, UG a Safon Uwch CBAC wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru. Mae'r fframweithiau hyn yn cynnwys gwybodaeth i athrawon a fydd yn eu galluogi i ddyfarnu graddau'n deg ac yn ddibynadwy, ac yn seiliedig ar dystiolaeth addas y bydd dysgwyr wedi'u cynhyrchu ar gyfer pob cymhwyster. Gall athrawon weld y fframweithiau hyn ar ein [gwefan ddiogel](#). Darparwyd fersiwn y dysgwr o bob fframwaith ar ran addasiadau haf 2021 tudalen y [cymhwyster](#) perthnasol ar ein gwefan gyhoeddus. Mae fframweithiau unigol pob cymhwyster yn ategu'r addasiadau i'r Asesiadau Di-arholiad a ryddhawyd gennym yn 2020 (mewn ymgynghoriad â Cymwysterau Cymru). Amlinellir yr addasiadau hyn yn adrannau 4 a 5 y llyfryn hwn.

Mae addasiadau i gynnwys unedau a asesir drwy arholiad fel arfer yn eu lle o hyd. Gellir gweld manylion pellach yn eich [Canllaw Addasiadau Cymwysterau](#) ar gyfer haf 2021. Argymhellwn yn gryf eich bod yn darllen y ddau lyfryn ar y cyd â'r Fframwaith Asesu Cymwysterau perthnasol. Gyda'i gilydd maent yn cynnig dealltwriaeth o'r gyfres lawn o addasiadau ar gyfer ein cymwysterau.

Wrth addasu cymwysterau i'w darparu yn haf 2021, dilynodd CBAC egwyddorion Cymwysterau Cymru yn ei ddogfen reoleiddiol [Gofynion ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yng Nghymru yn 2021](#) ^[PE1], a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 a'i ddiweddarau ym mis Awst 2020.

2. Asesu Asesiad Di-arholiad

Yn unol â chynghor y Gweinidog Addysg, argymhellwn fod canolfannau'n parhau i asesu'r Asesiadau Di-arholiad i lywio'r graddau a bennir gan ganolfannau.

Fodd bynnag, gan fod y canolfannau'n dyfarnu graddau, gallwn gadarnhau'r canlynol yn 2021:

- nid oes gofyn i ganolfannau gyflwyno marciau Asesiad Di-arholiad i CBAC
- ni fydd CBAC yn cymedroli Asesiadau Di-arholiad a asesir yn fewnol ac ni fydd CBAC yn cynnal ac yn marcio Asesiadau Di-arholiad a asesir yn allanol
- cafodd pob cyfnod asesu, terfyn amser ac ymweliad arholwr/cymedrolwr ei ganslo
- cynnig cynghor yn unig y mae'r holl reolaethau ar gyfer y drefn Asesu Di-arholiad

Argymhellwn yr asesir yr Asesiad Di-arholiad fel arfer a'i fod yn cyfrannu'n gymesur â phwysoli'r amcanion asesu ym mhob manyleb. Mae cynlluniau marcio i'w gweld ar dudalennau'r pynciau unigol ar ein gwefan a gellir gweld deunyddiau enghreifftiol, i helpu athrawon ffurfio barn am radd deg a manwl gywir, ar ein gwefan. I weld y dogfennau enghreifftiol, dylai athrawon fynd i'r [wefan ddiogel](#), clicio ar adnoddau ac yna dewis deunyddiau cefnogi pwnc-benodol gan gynnwys DPP ac enghreifftiau. Yna, gellir chwilio yn ôl pwnc. Atgoffir athrawon na chânt rannu deunyddiau enghreifftiol â dysgwyr gan y byddai hynny'n cael ei ystyried yn gamymddwyn.

Rhyddhawyd Canllaw Asesu Asesiad Di-arholiad pwnc-benodol i athrawon ar gyfer rhai pynciau ymarferol y gwnaed addasiadau sylweddol i'r gofynion tystiolaeth ar eu cyfer. Mae'r ddogfen hon i'w chael yn y rhan hyfforddiant a chefnogaeth ar ein [gwefan ddiogel](#) mewn ffolderi pynciau unigol. Argymhellwn eich bod yn darllen y canllaw i'r pwnc perthnasol cyn cychwyn ar y gwaith asesu. Mae'r canllawiau hyn ar gael ar gyfer y pynciau canlynol:

- Addysg Gorfforol.
- Astudio'r Cyfryngau
- Bwyd a Maeth
- Celf a Dylunio
- Cerddoriaeth
- Drama
- Drama a Theatr
- Dylunio a Thechnoleg

3. Rheolaethau Asesiadau Di-arholiad

Dywedodd y Gweinidog Addysg yn ei [datganiad](#) ar 20 Ionawr y gall canolfannau lacio'r rheolaethau a ddefnyddir fel arfer wrth sefyll yr Asesiad Di-arholiad. Bwriad yr adran hon felly yw rhoi cyngor i athrawon ar sut y gall dysgwyr weithio ar neu gwblhau asesiadau di-arholiad gartref, os yw'r ganolfan yn penderfynu ei bod yn saff ac yn ymarferol gwneud hynny. **Nid** oes gofyn i ganolfannau ofyn caniatâd gan CBAC na'i hysbysu pan fyddant yn rhoi'r trefniadau ar waith.

3.1. Gweithio ar Asesiadau Di-arholiad gartref

Gall athrawon ganiatáu i ddysgwyr sy'n cofrestru am gymwysterau yn 2021 gyflawni gwaith ysgrifenedig, ymarferol, perfformiad a llafar gartref, hyd yn oed pan fydd y fanyleb yn nodi y dylid gwneud y gwaith hwnnw yn y ganolfan.

Os yw athrawon yn caniatáu i ddysgwyr gwblhau gwaith ysgrifenedig neu ymarferol gartref, mae'n bwysig bod athrawon yn gallu dilysu gwaith dysgwyr o hyd. Felly, rhaid i athrawon atgoffa dysgwyr mai eu gwaith nhw eu hunain yn unig y dylai unrhyw waith fod. Os cyflwynir unrhyw waith nad yw'n waith yr ymgeisydd ei hun, byddai hynny'n cael ei ystyried yn gamymddwyn. **Rhaid** cydnabod unrhyw achlysur lle derbyniodd dysgwr gymorth, fel y gall canolfannau ddyfarnu graddau sy'n gywir a theg. Os bydd athrawon yn amau nad ei waith ei hun yw gwaith unrhyw ddysgwr, yna dylid adrodd hynny fel camymddwyn.

Cynghorwn eich bod yn gwirio'n rheolaidd. Gellid gwneud hyn fel a ganlyn:

- cynnal sesiwn Holi ac Ateb â'r dysgwr
- fideo-gynadledda ar-lein i arsylwi'r gwaith a thrafod unrhyw gynnydd â'r dysgwr
- cymharu perfformiad y dysgwr gartref â gwaith a gwblhawyd yn yr ystafell ddosbarth
- gosod terfynau amser penodol i ddechrau a gorffen y gwaith, a chadw cofnodion o ba bryd y cynhyrchwyd y gwaith
- atgoffa dysgwyr o risg cael cymorth gartref gan aelodau'r teulu a allai gael ei ystyried yn ormod o gymorth.

3.2. Cyngor i athrawon lle mae dysgwyr yn cwblhau tasgau perfformiad/llafar gartref neu'r tu allan i'r ganolfan

Yr egwyddor sy'n berthnasol o hyd yw bod yn rhaid i'r athro allu asesu'r perfformiad neu'r llafar mor fanwl gywir ag arfer a gallu dilysu'r gwaith fel gwaith y dysgwr ei hun. Edrych ar lif byw o'r perfformiad neu'r asesiad llafar fyddai'r ffordd orau o wneud hyn gyda goruchwyliaeth o bell. Ond, nid yw hyn bob amser yn bosibl ac efallai y bydd tystiolaeth arall yn ddigon i ganiatáu i'r athro asesu a dilysu. Gan ddibynnu ar y pwnc, gallai hyn gynnwys un neu fwy o'r canlynol fel y bo'n briodol i'r pwnc:

- recordiad fideo o'r holl berfformiad neu ran ohono
- recordiad sain o berfformiad
- tystiolaeth ffotograffig ac ysgrifenedig
- trafodaeth â'r dysgwr.

3.3. Aseidiadau diogelwch a risg

Ni all CBAC ddarparu cyngor iechyd a diogelwch. Cynghorir canolfannau i ddilyn eu hasesiad risg a pholisi diogelu eu hunain wrth ganiatáu i ddysgwyr gwblhau gwaith ymarferol gartref. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer unrhyw bwnc sydd fel arfer yn defnyddio cyfarpar a chyfleusterau arbenigol.

Er enghraifft:

- dylid ystyried p'un a oes gan ddysgwyr fynediad diogel at adnoddau
- o ran gwaith ymarferol, a oes modd cofnodi hwn yn ddiogel, ac a fydd y dysgwr yn gallu cynhyrchu'r gwaith i'r safon ddigonol
- p'un a oes angen defnyddio cyfarpar ar gyfer y dasg a fyddai fel arfer yn gofyn am oruchwyliaeth yn y ganolfan
- p'un a oes rhan benodol o dasg y gellid ei chyflawni'n ddiogel gartref
- mae ardal neu amgylchedd yn y cartref sy'n ddigon tawel i'r dysgwr allu cwblhau'r gwaith yno.

4. Cymwysterau TGAU

Nid oes Asesiadau Di-arholiad yn y cymwysterau TGAU CBAC canlynol a dydyn nhw ddim felly'n rhan o'r cyhoeddiad hwn.

Cymhwyster TGAU CBAC
Astudiaethau Crefyddol
Busnes
Mathemateg
Mathemateg – Rhifedd

Dydy'r holl gymwysterau CBAC Eduqas (9-1) (y dynodwyd rhai ohonynt i'w defnyddio yng Nghymru) ddim yn rhan o'r cyhoeddiad hwn chwaith.

Cymwysterau TGAU Eduqas (9-1) a ddynodwyd i'w defnyddio yng Nghymru
Astudiaethau Ffilm
Cymdeithaseg
Daeareg
Electroneg

Mae gwybodaeth bellach am addasiadau i gymwysterau Eduqas i'w gweld ar dudalen y pwnc perthnasol ar ein gwefan www.eduqas.co.uk

Tynnwyd yr Aseiad Di-arholiad o'r drefn asesu'n gyfan gwbl yn 2021 ar gyfer y pynciau TGAU canlynol ac nid yw felly'n rhan o'r llyfryn hwn.

Cymhwyster TGAU	ASESIAD DI-ARHOLIAD
Bioleg/Cemeg/Ffiseg	Uned 3
Cyfrifiadureg	Uned 3
Daearyddiaeth	Uned 3
Gwyddoniaeth (Dwyradd)	Uned 7

Cafodd addasiadau eu gwneud i'r Asesiadau Di-arholiad ar gyfer y cymwysterau TGAU canlynol.

Noder os gwelwch yn dda, dim ond unedau Aseiad Di-arholiad sydd dan ystyriaeth yn y llyfryn hwn; does dim cyfeiriad at unedau a fyddai fel arfer wedi'u hasesu drwy arholiad

Cymhwyster TGAU	
Addysg Gorfforol (gan gynnwys Cwrs Byr)*	Drama*
Astudio'r Cyfryngau*	Ffrangeeg/Almaeneg/Sbaeneg*
Bwyd a Maeth	Gwyddoniaeth Gymhwysol Dwyradd
Celf a Dylunio	Gwyddoniaeth Gymhwysol Gradd Unigol
Cerddoriaeth*	Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (Gradd Unigol)*
Cymraeg Ail Iaith*	Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (Dwyradd)*
Cymraeg Iaith*	Llenyddiaeth Gymraeg
Dylunio a Thechnoleg	Saesneg Iaith*

*Ychwanegwyd trefniadau lliniaru pellach ym mis Tachwedd 2020.

Yn y cymwysterau TGAU canlynol, nid addaswyd yr Aseidiadau Di-arholiad gan fod natur neu strwythur yr aseidiadau hynny'n golygu bod yr holl addasiadau yr ystyriwyd eu cyflwyno yn arwain at gymaint o broblemau neu risgiau â'r hyn y bwriadwyd iddynt eu lliniaru. Ond, gwnaed addasiadau sylweddol gennym i unedau a arholir yn y cymwysterau hyn naill ai drwy symleiddio cynnwys wedi'i asesu neu drwy gynnig dewisiadau o ran asesu. Gwnaethom hyn lle gwelwyd bod cyfleoedd i wneud iawn am yr anawsterau gwirioneddol iawn a wynebwyd gan athrawon a dysgwyr eleni.

Cymhwyster TGAU	ASESIAD DI-ARHOLIAD
Hanes	Uned 4
Llenyddiaeth Saesneg	Uned 3
TGCh	Uned 2 ac Uned 4

Pwnc TGAU	Uned	Trefniant Lliniaru
Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dwyradd)	Uned 4: Asesiad Seiliedig ar Dasgau	Nid oes disgwyl i ddysgwyr gwblhau'r tasgau casglu a chofnodi, dadansoddi a gwerthuso o Weithgaredd 1. Darperir asesiadau cyn-bapurau i gynorthwyo'r canolfannau â'r gwaith o gyflwyno'r uned hon.
	Uned 5: Asesiad Ymarferol	Tynnwyd Uned 5 o'r asesiad yn haf 2021.
Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Unigol)	Uned 3: Asesiad Seiliedig ar Dasgau	Nid oes disgwyl i ddysgwyr gwblhau'r tasgau casglu a chofnodi, dadansoddi a gwerthuso o Weithgaredd 1. Darperir asesiadau cyn-bapurau i gynorthwyo'r canolfannau â'r gwaith o gyflwyno'r uned hon.
	Uned 4: Asesiad Ymarferol	Tynnwyd Uned 4 o'r asesiad yn haf 2021.
Celf a Dylunio	Uned 1: Portffolio	Ni chafodd unrhyw addasiadau eu gwneud i gynnwys yr uned hon.
	Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol	Tynnwyd Uned 2 o'r asesiad yn haf 2021.
Dylunio a Thechnoleg Dylunio Peirianyddol Ffasiwn a Thecstilau Dylunio Cynnyrch	Uned 2: Tasg Dylunio a Gwneud	Gall dysgwyr gynhyrchu model/brasfodel yn lle'r cynnyrch gorffenedig. Ffasiwn a Thecstilau – gall dysgwyr gynhyrchu toile mewn calico neu mewn ffabrig priodol arall, gyda samplau i ddangos yr holl fanylion llunio. Gall dysgwyr gwblhau'r cynnyrch yn ôl yr arfer os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Nid oes disgwyl i ddysgwyr 'Werthuso addasrwydd i bwrpas prototeip' yn haf 2021.

Pwnc TGAU	Uned	Trefniant Lliniaru
Drama	Uned 1: Dyfeisio Theatr	<p>Maint lleiaf grŵp: wedi'i leihau i 1 actor</p> <p>Bydd hyd y darn yn dibynnu ar nifer yr actorion yn y grŵp.</p> <p>Mae amseriadau cyfres 2021 fel a ganlyn:</p> <p>1 actor: 1.5-5 munud 2 actor: 2-10 munud 3 actor: 3-12 munud 4 actor: 4-14 munud 5 actor: 5-16 munud.</p> <p>Gan fod llai o amser ar gael ar gyfer perfformwyr lleihawyd y nifer lleiaf o giwiau gan ddylunwyr goleuo a sain o 5 i 4. Lleihawyd y gofyniad lleiaf ar gyfer dylunwyr gwisgoedd o 2 wisg, gwallt a cholur llawn i ddau gymeriad gwahanol i 1 wisg, gwallt a cholur llawn i un cymeriad. Nid oes modd lleihau'r elfen dylunio set, dim ond un dyluniad set y mae gofyn i ddysgwyr ei gwblhau.</p> <p>Os nad yw dysgwyr yn gallu cynhyrchu recordiad cyflawn a heb ei olygu o'u perfformiad terfynol yn yr uned hon, gallent gynhyrchu tystiolaeth arall i enghreifftio sut roedden nhw'n bwriadu i'r darn terfynol fod.</p> <p>Dylai perfformwyr gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • recordiadau clyweledol o berfformiad actio heb fod angen set wedi'i dylunio'n llawn/goleuo/gwisgoedd <p>Dylai dylunwyr gynnwys:</p> <p>Dylai dylunio set (yn cynnwys propiau) gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • model o set (i'w ddangos drwy recordiad) • cynllun llawr o uwchben yn dangos gosodiad cyffredinol y set • ffotograffau o'r set wrth ymarfer <p>Dylai dylunio goleuo gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • plot goleuo • taflenni ciwiau • recordiadau / ffotograffau o'r dyluniad wrth ymarfer

Pwnc TGAU	Uned	Trefniant Lliniaru
Drama (parhad)	Uned 1: Dyfeisio Theatr (parhad)	Dylai dylunio sain gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • plot sain • taflenni ciwiau Dylai Gwisgoedd, Gwallt a Cholur gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • brasluniau dylunio terfynol/ffotograffau o wisgoedd, gwallt a cholur • ffotograffau o'r dyluniad wrth ymarfer Gallai tystiolaeth atodol ychwanegol i bob dylunydd gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • bwrdd naws yn adlewyrchu eu bwriadau dylunio • cyflwyniad wedi'i recordio o'u dyluniad arfaethedig (rhwng 5 a 10 munud o hyd)
	Uned 2: Perfformio Theatr	Tynnwyd Uned 2 o'r asesiad yn haf 2021
Saesneg Iaith	Uned 1: Llafaredd	Tasg 2: Tynnwyd Ymateb a Rhyngweithio (trafodaeth grŵp) o'r asesiad yn 2021.
Bwyd a Maeth	Uned 2: Bwyd a Maeth ar Waith	Asesiad 1: Tynnwyd yr Ymchwiliad Bwyd o'r asesiad yn 2021. Asesiad 2: Bydd yr Asesiad Paratoi Bwyd yn dal i ddilyn gofynion penodol y fanyleb. Cafodd cyfanswm yr amser asesu ei leihau o 25 awr i 15 awr. Ond, cyngor yn unig yw'r amser asesu hwn yn awr, gall athrawon lacio'r rheolaethau hyn pe byddai gwneud hynny'n helpu'r dysgwyr o ran cwblhau eu hasesiad di-arholiad.

Pwnc TGAU	Uned	Trefniant Lliniaru
Ffrangeg Almaeneg Sbaeneg	Uned 1: Siarad	<p>Tynnwyd Tasg 2 (trafodaeth llun ar gerdyn) o'r asesiad yn 2021. Darperir asesiadau cyn-bapurau i gynorthwyo'r canolfannau â'r gwaith o gyflwyno'r uned hon.</p> <p>Lleihawyd yr hyn a argymhellwyd fel hyd yr asesiad ddau funud (7-9 munud ar hyn o bryd) ar yr haen sylfaenol a thri munud (10-12 munud ar hyn o bryd) ar yr haen uwch er mwyn cymryd ystyriaeth o dynnu tasg 2. Ond, cyngor yn unig yw'r amser asesu hwn yn awr, gall athrawon lacio'r rheolaethau hyn pe byddai gwneud hynny'n helpu'r dysgwyr o ran cwblhau eu hasesiad di-arholiad. Dylai athrawon sicrhau hefyd bod dysgwyr yn cael digon o amser i baratoi. Argymhellwn fod pob dysgwr yn cael cyfnod o 12 munud heb unrhyw amhariad i baratoi ymlaen llaw.</p> <p>Gall dysgwyr ddewis eu his-is-thema eu hunain ar gyfer Rhan 1 o'r Sgwrs. Argymhellwn fod y dysgwr a'r athro yn cytuno ar yr is-is-thema o ddewis yn ddim hwyrach na phythefnos cyn cynnal yr asesiad.</p> <p>Tynnwyd y pump is-is-thema ganlynol o'r asesiad yn y dasg Chwarae Rôl a Rhan 2 o'r Sgwrs yn 2021:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Thema 1: i) Technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol; ii) Gwyliau a dathliadau • Thema 2: iii) Nodweddion lleol a rhanbarthol Ffrainc/Yr Almaen/Sbaen a gwledydd Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg eu hiaith; iv) materion cymdeithasol • Thema 3: v) Astudiaeth ôl-16.

Pwnc TGAU	Uned	Trefniant Lliniaru
<p>Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant</p> <p>GRADD UNIGOL</p>	Uned 2: Hybu a chynnal iechyd a llesiant	Tynnwyd Tasg 2 o'r asesiad yn 2021. Lleihawyd cyfanswm amser asesu tasg 1 i 10 awr. Ond, cyngor yn unig yw'r amser asesu hwn yn awr, gall athrawon lacio'r rheolaethau hyn pe byddai gwneud hynny'n helpu'r dysgwyr o ran cwblhau eu hasesiad di-arholiad.
<p>Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant</p> <p>DWYRADD</p>	Uned 2: Hybu a chynnal iechyd a llesiant	Tynnwyd Tasg 2 o'r asesiad yn 2021. Lleihawyd cyfanswm amser asesu tasg 1 i 10 awr. Ond, cyngor yn unig yw'r amser asesu hwn yn awr, gall athrawon lacio'r rheolaethau hyn pe byddai gwneud hynny'n helpu'r dysgwyr o ran cwblhau eu hasesiad di-arholiad.
	Uned 4: Hybu a chefnogi iechyd a llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol	<p>Tynnwyd yr is-fwled cyntaf: '<i>dadansoddi data/ystadegau demograffig er mwyn ymchwilio i dueddiadau iechyd a thueddiadau cymdeithasol lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud â'r anghenion/cyflwr penodol a ddewiswyd ganddynt</i>' o'r asesiad yn Nhasg (b) '<i>Dadansoddi'r ffordd mae tueddiadau lleol a chenedlaethol, demograffeg a mentrau'r llywodraeth yn effeithio ar ddarparu gofal i'r grŵp targed a ddewiswyd</i>'.</p> <p>Mae cyfanswm yr amser asesu yn mynd i lawr o 25 awr i 20 awr. Ond, cyngor yn unig yw'r amser asesu hwn yn awr, gall athrawon lacio'r rheolaethau hyn pe byddai gwneud hynny'n helpu'r dysgwyr o ran cwblhau eu hasesiad di-arholiad.</p>
TGCh	Uned 2: Datrys Problemau gyda TGCh (Asesiad Di-arholiad) ac Uned 4: Datblygu Datrysiadau TGCh Amlgyfrwng	Gall dysgwyr ddefnyddio tasgau sy'n dod i ben yn 2020 ar gyfer yr unedau hyn yn 2021.

Pwnc TGAU	Uned	Trefniant Lliniaru
Astudio'r Cyfryngau	Uned 3: Creu Cyfryngau	<p>1. Cynllunio: Dylai dysgwyr gyflawni agweddau ymchwil a chynllunio'r uned hon fel yr amlinellir yn y Fanyleb.</p> <p>2. Cynhyrchu: Lleihawyd y gofynion o ran hyd/maint ar gyfer pob opsiwn cynhyrchu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith sy'n seiliedig ar brint: un dudalen (tair fel arfer) • Clyweledol: un funud (un funud tri deg eiliad fel arfer) • Ar-lein – un dudalen gartref (tudalen gartref fel arfer a dwy dudalen arall) <p>Os nad oes gan ganolfannau fynediad at gyfarpar technegol neu ychydig iawn o fynediad yn unig, gallent gynhyrchu byrddau stori wedi'u lluniadu â llaw neu ar ffurf ffotograffau yn lle cynyrchiadau delwedd symudol. Rhaid i'r rhain gynnwys rhwng 25 a 30 o fframiau a'u hanodi'n llawn gan ddefnyddio templed y bydd CBAC wedi'i ddarparu.</p> <p>3. Dadansoddi Myfyriol: Dylai dysgwyr ddadansoddi'r uned hon yn fyfyrion fel yr amlinellir yn y Fanyleb</p>
Cerddoriaeth	Uned 1: Perfformio	<p>Lleihau'r amser perfformio gofynnol o 4 munud i 1 funud 30 eiliad ar gyfer cyflwyniad perfformiad(au) unigol yn unig neu 2 funud os yw'n cynnwys ensemble. Ni ddylid dilyn y drefn o gosbi yn 2021.</p> <p>Mae perfformiad ensemble yn ddewisol fel y gall canolfannau gydymffurfio â mesurau ymbellhau cymdeithasol. Mae dysgwyr sy'n gallu perfformio ensemble yn dal i allu gwneud hynny os yw'n well ganddynt.</p> <p>Dylid perfformio un neu ddau o ddarnau er mwyn cyrraedd y cyfanswm amser ac mae angen y nodyn rhaglen o hyd.</p>
	Uned 2: Cyfansoddi	<p>Lleihau'r gofyniad o ddau gyfansoddiad i un cyfansoddiad. Rhyddhawyd y briffiau fel arfer ond gellir dewis eu defnyddio yn 2021. Fel canllaw, dylai'r cyfansoddiad fod rhwng 1½ a 3 munud o hyd.</p> <p>Ni fydd gofyn i ddysgwyr werthuso eu cyfansoddiad.</p>

Pwnc TGAU	Uned	Trefniant Lliniaru
Addysg Gorfforol (Cwrs Llawn)	Uned 2: Y cyfranogwr gweithredol mewn addysg gorfforol	Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgaredd tîm. Ond, bydd gweithgareddau tîm yn dal i fod yn opsiwn yn 2021. Addasiadau 2021: <ul style="list-style-type: none"> Lleihau o dri gweithgaredd i unrhyw ddau weithgaredd Nid oes gofyn i ddysgwyr gynhyrchu rhaglen ffitrwydd personol.
Addysg Gorfforol (Cwrs Byr)	Uned 2: Y cyfranogwr gweithredol mewn addysg gorfforol	Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgaredd tîm. Ond, bydd gweithgareddau tîm yn dal i fod yn opsiwn yn 2021. Addasiad 2021: <ul style="list-style-type: none"> Lleihau o ddau weithgaredd i un gweithgaredd.
Cymraeg Iaith	Uned 1: Llafar	Tasg 2: Nid asesir Ymateb a Rhyngweithio (trafodaeth grŵp – tua 10 munud) o'r asesiad yn 2021.
Llenyddiaeth Gymraeg	Uned 3: Llunyddiaeth Arholiad Llafar	Astudio ffilm yn unig – tynnwyd y gofyniad i astudio testun print o'r asesiad yn 2021. Darperir asesiadau cyn-bapurau i gynorthwyo'r canolfannau â'r gwaith o gyflwyno'r uned hon.
	Uned 4: Tasgau Ysgrifenedig yr Asesiad Di-arholiad	Ni chafodd unrhyw addasiadau eu gwneud i gynnwys yr uned hon.
Cymraeg Ail Iaith	Uned 1 ac Uned 2	Mae dysgwyr i ddewis naill ai Uned 1 neu Uned 2 (nid y ddau). Darperir asesiadau cyn-bapurau i gynorthwyo'r canolfannau â'r gwaith o gyflwyno'r unedau hyn.

5. Cymwysterau TAG

Nid oes Asesiadau Di-arholiad yn y cymwysterau TAG UG a Safon Uwch canlynol a dydyn nhw ddim felly'n rhan o'r cyhoeddiad hwn.

Cymhwyster TAG
Astudiaethau Crefyddol
Busnes
Cymdeithaseg
Economeg
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
Mathemateg
Mathemateg Bellach
Seicoleg
Y Gyfraith

Dydy'r holl gymwysterau CBAC Eduqas TAG UG a Safon Uwch (y dynodwyd rhai ohonynt i'w defnyddio yng Nghymru) ddim yn rhan o'r cyhoeddiad hwn chwaith.

Cymwysterau TAG UG Eduqas a ddynodwyd i'w defnyddio yng Nghymru
Astudiaethau Ffilm
Daeareg
Electroneg

Cymwysterau TAG Safon Uwch Eduqas a ddynodwyd i'w defnyddio yng Nghymru
Astudiaethau Ffilm
Daeareg
Electroneg

Gweler tudalen y pwnc perthnasol ar ein gwefan www.eduqas.co.uk am wybodaeth bellach am addasiadau i gymwysterau Eduqas.

Yn y cymwysterau TAG UG a Safon Uwch canlynol, gwnaed addasiadau i'r drefn Asesu Di-arholiad.

Noder os gwelwch yn dda, dim ond unedau Asesiad Di-arholiad sydd dan ystyriaeth yn y llyfryn hwn; does dim cyfeiriad at unedau a fyddai fel arfer wedi'u hasesu drwy arholiad.

Cymhwyster TAG	
Addysg Gorfforol*	Daearyddiaeth
Astudio'r Cyfryngau*	Drama a Theatr*
Biolog/Cemeg/Ffiseg*	Dylunio a Thechnoleg
Celf a Dylunio*	Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg
Cerddoriaeth*	Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Hen) Gradd Unigol
Cyfrifiadureg*	Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Newydd) UG yn unig*
Cymraeg Iaith*	TGCh a TGCh Gymhwysol*
Cymraeg Ail Iaith*	

*Ychwanegwyd trefniadau lliniaru pellach ym mis Tachwedd 2020.

Yn y cymwysterau TAG UG a Safon Uwch canlynol, nid addaswyd yr Aseidiadau Di-arholiad gennym gan fod natur neu strwythur yr aseidiadau hynny'n golygu bod yr holl addasiadau yr ystyriwyd eu cyflwyno yn arwain at gymaint o broblemau neu risgiau â'r hyn y bwriadwyd iddynt eu lliniaru.

Cymhwyster TAG	ASESIAD DI-ARHOLIAD
Cymraeg Ail Iaith	Uned 1, Uned 2 ac Uned 4
Cymraeg Iaith	Uned 1, Uned 2 ac Uned 4
Hanes	Uned 5
Llenyddiaeth Saesneg	Uned 5
Saesneg Iaith	Uned 5
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth	Uned 5

Pwnc TAG	Uned	Trefniant Lliniaru
TGCh Gymhwysol	UG Uned 2: senario eSgiliau	Ni chafodd unrhyw addasiadau eu gwneud i gynnwys yr uned hon.
	Safon Uwch Uned 3: eBroject	Gellir ymdrin â'r senario cychwynnol a ddosbarthwyd ym mis Medi 2020 (i'w gwblhau yn haf 2021) fel gweithgaredd dosbarth cyfan 'dan arweiniad yr athro' yn hytrach nag iddo fod yn rhywbeth i'w gwblhau gan nifer o grwpiau bach. Ar y cyd gall y dosbarth lunio model taenlen i ymdrin â'r senario dan sylw. Gall yr holl ddysgwyr wedyn ddefnyddio hyn wrth gwblhau'r gwaith unigol a ysgogir pan fydd y gofynion diwygiedig ar gael (gwanwyn 2021).
	Safon Uwch Uned 4/5/6: eStiwdio, eGod, eDrafod	Ni chafodd unrhyw addasiadau eu gwneud i gynnwys yr uned hon.
TGCh	UG Uned 2: Tasg Cyflwyno Gwybodaeth	Ni chafodd unrhyw addasiadau eu gwneud i gynnwys yr uned hon.
	Safon Uwch Uned 4: Project Cronfa Ddata Berthynol	Nid oes disgwyl i ddysgwyr werthuso eu project cronfa ddata yn 2021.
Celf a Dylunio	UG Uned 1: Ymholiad Creadigol Personol	Ni chafodd unrhyw addasiadau eu gwneud i gynnwys yr uned hon gan fod y rheolaethau'n rhai eithaf cyfyngedig yn barod ac mae'n bosibl cyflwyno'r uned hon dros gyfnod hir o amser (Medi 2020 - Mai 2021) gan ddefnyddio dysgu/gwaith cyfunol. Ar ôl derbyn adborth gan nifer o ganolfannau, ac fel trefniant lliniaru pellach am amser addysgu a dysgu a gollwyd, tynnwyd y gofyniad i ddysgwyr U2 yn 2021 gwblhau Uned 1. Dim ond y dysgwyr hynny sy'n cofrestru am UG yn 2021 sy'n cwblhau'r uned hon.
	Safon Uwch Uned 2: Ymchwiliad Personol	Ni chafodd unrhyw addasiadau eu gwneud i gynnwys yr uned hon.
	Safon Uwch Uned 3: Aseiniad wedi'i osod yn allanol	Tynnwyd Uned 3 o'r asesiad yn 2021.

Pwnc TAG	Uned	Trefniant Lliniaru
Bioleg Cemeg Ffiseg	Safon Uwch Uned 5: Arholiad ymarferol	Tynnwyd y Dasg Arbrofol o'r asesiad yn 2021. Darperir asesiadau cyn-bapurau i gynorthwyo'r canolfannau â'r gwaith o gyflwyno'r Dasg Dadansoddi Ymarferol.
Cyfrifiadureg	Safon Uwch Uned 5: Rhaglennu Datrysiaid i Broblem	Tynnwyd y gwaith o gynhyrchu prototeip ac nid oes disgwyl i ddysgwyr gyflawni profion datblygiadol.
Dylunio a Thechnoleg Dylunio Peirianyddol Ffasiwn a Thecstilau Dylunio Cynnyrch	UG Uned 2: Tasg Dylunio a Gwneud	Gall dysgwyr gynhyrchu model/brasfodel yn lle'r cynnyrch gorffenedig. Ffasiwn a Thecstilau – gall dysgwyr gynhyrchu toile mewn calico neu mewn ffabrig priodol arall, gyda samplau i ddangos yr holl fanylion llunio. Gall dysgwyr gwblhau'r cynnyrch yn ôl yr arfer os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
	Safon Uwch Uned 4: Project dylunio a gwneud	Gall dysgwyr gynhyrchu model/brasfodel yn lle'r cynnyrch gorffenedig. Ffasiwn a Thecstilau – gall dysgwyr gynhyrchu toile mewn calico neu mewn ffabrig priodol arall, gyda samplau i ddangos yr holl fanylion llunio. Gall dysgwyr gwblhau'r cynnyrch yn ôl yr arfer os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Hefyd, gall dysgwyr ddewis datblygu projectau a ddechreuwyd ar gyfer yr UG yn 2020 ar gyfer eu hasesiad Uned 4.
Drama a Theatr	UG Uned 1: Gweithdy Theatr	<p>Caiff maint lleiaf grŵp ei leihau i 1 actor. Byddai hyd addas yn seiliedig ar feintiau grwpiau eraill rhwng 2 a 4 munud.</p> <p>Hefyd, rydym wedi lleihau'r amseroedd lleiaf i grwpiau o 2-5 actor o ddau funud. Felly, dylai grŵp o 2 actor berfformio am rhwng 3 a 10 munud, dylai grŵp o 3 actor berfformio am rhwng 5 a 12 munud, dylai grŵp o 4 actor berfformio am rhwng 7 ac 14 munud a dylai grŵp o 5 actor berfformio am rhwng 9 ac 16 munud.</p> <p>Lleihawyd nifer lleiaf y ciwiau ar gyfer dylunwyr goleuo a sain o 8 i 5, a lleihawyd y gofynion lleiaf ar gyfer dylunwyr gwisgoedd o 2 wisg, gwallt a cholur llawn i 2 gymeriad gwahanol i 1 wisg, gwallt a cholur llawn i un cymeriad.</p> <p>Os nad yw dysgwyr yn gallu cynhyrchu recordiad cyflawn a heb ei olygu o'u perfformiad terfynol yn yr uned hon, gallent gynhyrchu tystiolaeth arall i enghreifftio sut roedden nhw'n bwriadu i'r darn terfynol fod.</p>

Pwnc TAG	Uned	Trefniant Lliniaru
Drama a Theatr (parhad)	UG Uned 1: Gweithdy Theatr (parhad)	<p>Dylai perfformwyr gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • recordiadau clyweledol o berfformiad actio heb fod angen set wedi'i dylunio'n llawn/goleuo/gwisgoedd <p>Dylai dylunwyr gynnwys:</p> <p>Dylunio set (yn cynnwys propiau)</p> <ul style="list-style-type: none"> • model o set (i'w ddangos drwy recordiad) • cynllun llawr o uwchben yn dangos gosodiad cyffredinol y set • ffotograffau o'r set wrth ymarfer <p>Dylai dylunio goleuo gynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> • plot goleuo • taflenni ciwiau • recordiadau / ffotograffau o'r dyluniad wrth ymarfer <p>Dylai dylunio sain gynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> • plot sain • taflenni ciwiau <p>Dylai Gwisgoedd, Gwallt a Cholur gynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> • brasluniau dylunio terfynol/ffotograffau o wisgoedd, gwallt a cholur • ffotograffau o'r dyluniad wrth ymarfer <p>Gallai tystiolaeth atodol ychwanegol i bob dylunydd gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bwrdd naws yn adlewyrchu bwriadau dylunio • cyflwyniad wedi'i recordio o'u dyluniad arfaethedig (rhwng 5 a 10 munud o hyd) <p>Os nad yw dysgwyr yn gallu cwblhau'r perfformiad yn y ganolfan, gall y ganolfan (ar sail ei asesiad risg ei hun) ganiatau i'r dysgwr recordio ei berfformiad neu i berfformio'n fyw gan ddefnyddio llwyfan ar-lein, e.e. Teams neu Zoom.</p>
	Safon Uwch Uned 3: Testun ar Waith	<p>Lleihawyd yr uned o ddau berfformiad i un perfformiad yn seiliedig ar symbyliad wedi'i gyflenwi gan CBAC. Mae dysgwyr naill ai'n cymryd rhan yn y gwaith o greu, datblygu a pherfformio:</p> <p>i) Darn wedi'i ddyfeisio</p> <p>neu</p> <p>ii) Darn o destun.</p> <p>Caiff maint lleiaf grŵp ei leihau i 1 actor ar gyfer y perfformiad dewisol. Byddai hyd addas yn seiliedig ar feintiau grwpiau eraill rhwng 2 a 4 munud.</p>

Pwnc TAG	Uned	Trefniant Lliniaru
Drama a Theatr (parhad)	Safon Uwch Uned 3: Testun ar Waith (parhad)	<p>Hefyd, rydym wedi lleihau'r amseroedd lleiaf i grwpiau o 2-5 actor o ddau funud. Felly dylai grŵp o 2 actor berfformio am rhwng 3 a 10 munud, dylai grŵp o 3 actor berfformio am rhwng 5 a 12 munud a dylai grŵp o 4 actor berfformio am rhwng 7 ac 14 munud.</p> <p>Lleihawyd nifer lleiaf y ciwiau ar gyfer dylunwyr goleuo a sain o 8 i 5, a lleihawyd y gofynion lleiaf ar gyfer dylunwyr gwisgoedd o 2 wisg, gwallt a cholur llawn i 2 gymeriad gwahanol i 1 wisg, gwallt a cholur llawn i un cymeriad.</p> <p>Mae dysgwyr yn llunio adroddiad proses a gwerthuso sy'n seiliedig ar y perfformiad o'u dewis. Y nifer geiriau a awgrymir ar gyfer yr adroddiad hwn yw 1500 o eiriau. Tynnwyd y gofyniad i gwblhau'r adroddiad proses a gwerthuso o fewn wythnos i'r perfformiad terfynol.</p> <p>Atgoffir canolfannau hefyd y gellir defnyddio recordiadau/ffrydiau byw o gynrychiadau fel cyfeiriadau/dylanwadau theatr fyw ar gyfer Adran 2 yr adroddiad.</p> <p>Os nad yw dysgwyr yn gallu cynhyrchu recordiad cyflawn a heb ei olygu o'u perfformiad terfynol yn yr uned hon, gallent gynhyrchu tystiolaeth arall i enghreifftio sut roedden nhw'n bwriadu i'r darn terfynol fod.</p> <p>Dylai perfformwyr gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • recordiadau clyweledol o berfformiad actio heb fod angen set wedi'i dylunio'n llawn/goleuo/gwisgoedd <p>Dylai dylunwyr gynnwys:</p> <p>Dylunio set (yn cynnwys propiau)</p> <ul style="list-style-type: none"> • model o set (i'w ddangos drwy recordiad) • cynllun llawr o uwchben yn dangos gosodiad cyffredinol y set • ffotograffau o'r set wrth ymarfer • cyflwyniad wedi'i recordio o'u dyluniad arfaethedig (rhwng 5 a 10 munud o hyd) <p>Dylai dylunio goleuo gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • plot goleuo • taflenni ciwiau • recordiadau / ffotograffau o'r dyluniad wrth ymarfer • cyflwyniad wedi'i recordio o'u dyluniad arfaethedig (rhwng 5 a 10 munud o hyd)

Pwnc TAG	Uned	Trefniant Lliniaru
Drama a Theatr (parhad)	Safon Uwch Uned 3: Testun ar Waith (parhad)	<p>Dylai dylunio sain gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • plot sain • taflenni ciwiau • cyflwyniad wedi'i recordio o'u dyluniad arfaethedig (rhwng 5 a 10 munud o hyd) <p>Dylai Gwisgoedd, Gwallt a Cholur gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • brasluniau dylunio terfynol/ffotograffau o wisgoedd, gwallt a cholur • ffotograffau o'r dyluniad wrth ymarfer • cyflwyniad wedi'i recordio o'u dyluniad arfaethedig (rhwng 5 a 10 munud o hyd) <p>Gallai tystiolaeth atodol ychwanegol i bob dylunydd gynnwys: bwrdd naws yn adlewyrchu bwriadau dylunio.</p>
Ffrangeg Almaeneg Sbaeneg	UG Uned 1: Siarad	Ni chafodd unrhyw addasiadau eu gwneud i gynnwys yr uned hon. Darperir asesiadau cyn-bapurau i gynorthwyo'r canolfannau â'r gwaith o gyflwyno'r uned hon.
	Safon Uwch Uned 3: Siarad	Ni chafodd unrhyw addasiadau eu gwneud i gynnwys yr uned hon.
Daearyddiaeth	Safon Uwch Uned 5: Ymchwiliad Annibynnol	Ni chafodd unrhyw addasiadau eu gwneud i gynnwys yr uned hon. Ond, ni fydd CBAC yn gofyn i ganolfannau gyflwyno'r datganiad gwaith maes 4 diwrnod yn 2021.
Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Hen Fanyleb) Gradd Unigol	Safon Uwch Uned 7	Ni chafodd unrhyw addasiadau eu gwneud i gynnwys yr uned hon. Ni chaiff deunyddiau asesu eu rhyddhau fel arfer ar 1 Mawrth 2021 ond bydd asesiadau cyn-bapurau ar gael i ganolfannau yn eu lle.

Pwnc TAG	Uned	Trefniant Lliniaru
Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Hen Fanyleb) Gradd Unigol	Safon Uwch Uned: 9/10/11/12	<p>Dylai dysgwyr gwblhau un o bedair uned ddewisol yn yr Aseiad Di-arholiad.</p> <p>Ar gyfer Uned 9 <i>ddewisol</i>, mae dysgwyr yn llunio adroddiad sy'n seiliedig ar astudiaeth o un (yn hytrach na dwy) rôl swydd yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau plant.</p> <p>Ar gyfer Uned 10 <i>ddewisol</i>, dim ond un unigolyn a ystyrir, felly gellid addasu'r rhan 'astudiaeth achos' fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Un ddamcaniaeth heneiddio • Dewis o ddwy effaith o ffactorau cymdeithasol, economaidd, emosiynol • Dau o'r gwasanaethau a ddefnyddir gan yr unigolyn (un ffurfiol, un anffurfiol) <p>Ar gyfer Uned 11 <i>ddewisol</i>, mae dysgwyr yn llunio adroddiad ysgrifenedig o astudiaeth o ddau therapi cyflenwol ac yn ymchwilio sut mae'r rhain yn bodloni anghenion un (yn hytrach na dau) unigolyn ag anghenion.</p> <p>Ar gyfer Uned 12 <i>ddewisol</i>, mae dysgwyr yn llunio adroddiad ysgrifenedig sy'n archwilio canlyniadau deiet NEU raglen gweithgaredd corfforol a luniwyd yn benodol i un unigolyn am 4 wythnos.</p> <p>Cyngor yn unig yw'r cyfnodau amser hyn, gall athrawon lacio'r rheolaethau hyn pe byddai gwneud hynny'n helpu'r dysgwyr o ran cwblhau eu hasesiad di-arholiad.</p>
Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Newydd) UG yn unig	UG Uned 2: Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru	<p>Tasg 1 – Does dim newidiadau i'r dasg hon.</p> <p>Caiff Tasg 2 ei haddasu gyda rhan (dd) yn cael ei thynnu, sy'n golygu bod llai o amser asesu i lawr o'r 20 awr a argymhellir i 15 awr. Ond, cyngor yn unig yw'r amser asesu hwn, gall athrawon lacio'r rheolaethau hyn pe byddai gwneud hynny'n helpu'r dysgwyr o ran cwblhau eu hasesiad di-arholiad.</p>
Astudio'r Cyfryngau	UG Uned 2: Creu Cynhyrchiad y Cyfryngau	<p>Dylai canolfannau ddarllen y ddogfen CBAC TAG Astudio'r Cyfryngau Addasiadau i'r Aseiad Di-arholiad 2021 sydd i'w weld ar dudalen Astudio'r Cyfryngau ar wefan CBAC. Mae'n cynnwys manylion llawn am y drefn Asesu Di-arholiad a meini prawf marcio diwygiedig.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Does dim newidiadau i'r Ymchwil na'r Dadansoddi Myfyriol. 2. Cynllunio Lleihawyd yr argymhelliad o ran hyd/maint ar gyfer pob opsiwn Cynllunio. Dylai dysgwyr gynhyrchu un o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • clyweledol: bwrdd stori wedi'i luniadu â llaw neu ddigidol yn cynnwys rhwng deg a dau ddeg pump o gelloedd • print: dyluniadau drafft ar gyfer dwyr dudalen • ar-lein: dyluniadau drafft ar gyfer dwyr dudalen 3. Cynhyrchu Lleihawyd yr argymhelliad o ran hyd/maint ar gyfer pob opsiwn Cynhyrchu: <ul style="list-style-type: none"> • clyweledol: un munud tri deg eiliad – dau funud tri deg eiliad • print: dwyr dudalen; cyfanswm o dair delwedd wreiddiol o leiaf

		<ul style="list-style-type: none"> ar-lein: un dudalen gartref ac un adroddiad sain neu fideo; cyfanswm o dair delwedd wreiddiol o leiaf ac o leiaf tri chan gair ar gyfer y dudalen gartref, 45-60 eiliad ar gyfer yr adroddiad sain/fideo
Pwnc TAG	Uned	Trefniant Lliniaru
Astudio'r Cyfryngau (parhad)	UG Uned 2: Creu Cynhyrchiad y Cyfryngau (parhad)	<p>Dylai athrawon dderbyn y mathau canlynol o dystiolaeth asesu ar gyfer elfen Cynhyrchu Uned 2 yn unol â'r addasiadau i'r argymhellion o ran hyd/maint uchod:</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyrchiadau a gwblhawyd cynyrchiadau a gwblhawyd yn rhannol gwaith cyn-gynhyrchu.
	Safon Uwch Uned 4: Creu Cynhyrchiad y Cyfryngau	<p>Dylai canolfannau ddarllen y ddogfen CBAC TAG Astudio'r Cyfryngau Addasiadau i'r Asesiad Di-arholiad 2021 sydd i'w weld ar dudalen Astudio'r Cyfryngau ar wefan CBAC. Mae'n cynnwys manylion llawn am y drefn Asesu Di-arholiad a meini prawf marcio diwygiedig.</p> <ol style="list-style-type: none"> Does dim newidiadau i'r Ymchwil Ymchwiliol, Amlinelliad Datblygu na Dadansoddi Beirniadol. Mae dysgwyr yn creu un cynnyrch y cyfryngau, yn hytrach na'r ddau arferol. Hanerwyd Briff 1, Opsiynau 1 a 2: erbyn hyn mae'n un munud tri deg eiliad – dau funud (unigol), dau funud - dau funud tri deg eiliad (pâr). Lleihawyd nifer y tudalennau a'r delweddau gwreiddiol ar gyfer Briff 2, Opsiynau 1 a 2: cyfanswm tair tudalen, yn cynnwys clawr blaen ac erthygl tudalen ddwbl; o leiaf pum delwedd wreiddiol wahanol i gyd. <p>Dylai athrawon dderbyn y mathau canlynol o dystiolaeth asesu ar gyfer elfen Cynhyrchu Uned 4 yn unol â'r addasiadau i'r argymhellion o ran hyd/maint uchod:</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyrchiadau a gwblhawyd cynyrchiadau a gwblhawyd yn rhannol gwaith cyn-gynhyrchu.

Pwnc TAG	Uned	Trefniant Lliniaru
Cerddoriaeth	UG Uned 1: Perfformio	Lleihau'r amser perfformio o 6-8 munud i leiafswm o 2 funud a 30 eiliad. Ni fydd cosbau yn 2021. Tynnir y gofyniad i un o'r darnau gysylltu â maes astudio. Dylai dysgwyr berfformio un darn neu fwy er mwyn cyrraedd y cyfanswm amser. Gall dysgwyr sy'n cynllunio i wneud datganiad hirach (gan gadw i'r amseriadau arferol) gyflwyno hwn o hyd. Does dim cosb am fynd dros yr amser gofynnol.
	UG Uned 2: Cyfansoddi	Ni chafodd unrhyw addasiadau eu gwneud i gynnwys yr uned hon.
	Safon Uwch Uned 4: Perfformio Opsiw A neu Opsiw B	Lleihau'r amser perfformio o 10-12 munud i leiafswm o 3 munud a 30 eiliad (opsiwn A) ac o 6-8 munud i leiafswm o 2 funud a 30 eiliad (opsiwn B). Ni fydd cosbau yn 2021. Tynnir y gofyniad i un o'r darnau gysylltu â maes astudio. Dylai ymgeiswyr berfformio dau ddarn neu fwy er mwyn cyrraedd yr amser yn Opsiw A, neu un darn neu fwy er mwyn cyrraedd yr amser yn Opsiw B. Gall dysgwyr sy'n cynllunio i wneud datganiad hirach (gan gadw i'r amseriadau arferol) gyflwyno hwn o hyd. Does dim cosb am fynd dros yr amser gofynnol.
	Safon Uwch Uned 5: Cyfansoddi Opsiw A neu Opsiw B	Does dim newid i'r gofynion i gyfansoddi un cyfansoddiad i friff ac un (opsiwn A) neu ddau (opsiwn B) gyfansoddiad rhydd. Ond, gall dysgwyr wella a chwblhau cyfansoddiadau a gychwynnwyd ganddynt ar y cwrs UG mewn ymateb i naill ai'r briffiau UG 2020 (a ryddhawyd ym mis Medi 2019) neu'r briffiau Safon Uwch 2021 (a ryddhawyd ym mis Medi 2020) yn dderbyniol. Dylid defnyddio'r meini prawf Safon Uwch fel y'u cyhoeddwyd yn y fanyleb i asesu'r holl gyfansoddiadau.

Pwnc TAG	Uned	Trefniant Lliniaru
Addysg Gorfforol	UG Uned 2: Gwella perfformiad personol mewn addysg gorfforol	Tynnwyd y gofyniad i hyfforddi/dyfarnu (4%) o'r uned.
	Safon Uwch Uned 4: Mireinio perfformiad personol mewn addysg gorfforol	<p>Does dim newidiadau i'r dasg na'r meini prawf asesu.</p> <p>Does dim newidiadau i'r gofynion i gyflwyno'r Project Ymchwil Ymchwiliol. Ond, gall dysgwyr wella a chwblhau eu Proffil Perfformiad Personol maen nhw wedi'i gychwyn ond heb ei gyflwyno ar gyfer y cymhwyster UG yn 2020. Dylid defnyddio'r meini prawf Safon Uwch fel y'u cyhoeddwyd yn y fanyleb i asesu hwn wedyn. Felly, rhaid i ddysgwyr sicrhau eu bod yn ystyried yr holl agweddau ar y meini prawf hyn wrth wella ar eu gwaith.</p>